Datganiad o resymau

Mae Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Llefydd Parcio Oddi ar y Stryd) 2025 yn cael ei gwneud ar sail sicrhau bod Llefydd Parcio Cyngor Sir Ceredigion sy’n dod o dan y Gorchymyn yn cael eu rheoli’n effeithlon. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, symleiddio a rhesymoli’r trefniadau codi tâl, sicrhau bod Llefydd Parcio yn briodol ar gyfer y math o gerbyd / defnyddiwr a ganiateir, cynyddu capasiti, cymell pobl i brynu trwyddedau parcio, ymestyn yr eithriadau presennol ar gyfer Deiliaid Bathodynnau Glas, adlewyrchu’r newidiadau technolegol a sicrhau bod darpariaethau’r Gorchymyn – sy'n sail i'r trefniadau yn y Llefydd Parcio – yn gywir a pherthnasol.

.